

# PRIFFYRDD, CYMRU

2015 Rhif 42

## DEDDF PRIFFYRDD 1980

### GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERTAWE I FANCEINION (YR A483) A CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I ABERYSTWYTH (YR A489) (FFYRDD YMYL FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD) 2015

*Gwnaed* *8 Rhagfyr 2015*

*Yn dod i rym* *18 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup> ('Deddf 1980') a phob pŵer galluogi arall<sup>(2)</sup> yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Y Gwaith Awdurdodedig**

1. Awdurdodir Gweinidogion Cymru, o ran Cefnffordd yr A483 a Chefnffordd yr A489 yn y Drenewydd yn Sir Powys:

- a. i wneud gwaith i wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd,
- e. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd,
- f. i adeiladu darnau o briffordd dros dro, ac
- g. i gau darnau o briffordd dros dro.

2. (1) Mae'r gwaith a awdurdodir gan Erthygl 1 wedi'i ddangos yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn sy'n dwyn y rhifau 1 i 4 ac wedi'i ddangos ar y planiau safle sy'n dwyn y rhifau 1 i 4 a gynhwysir yn y plan a adnewwyd ac sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn hwn fel a ganlyn:-

- a. enwir y priffyrdd sydd i'w gwella yn yr Atodlenni a'u dangos â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd;
- b. disgrifir y darnau a'r rhannau o briffyrdd sydd i'w cau yn yr Atodlenni (bras amcan yn unig yw pob pellter a nodir) a'u dangos â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd;
- c. dangosir priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlenni, a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adnewwyd. Os oes priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, gosodir ei llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno ac, os yw priffordd newydd i fod yn llwybr troed neu'n llwybr ceffylau, gwelir y geiriau 'llwybr troed' neu 'llwybr ceffylau' (yn ôl fel y digwydd) mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirnod. Dangosir llwybrau priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu â dotwaith a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd â llinell ddu ddi-dor ar y plan a adnewwyd
- d. disgrifir darnau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau yn yr Atodlenni (bras amcan yn unig yw pob pellter a nodir), a rhoddir y rhifau cyfeirnod a ddangosir ar y plan a adnewwyd iddynt a'u dangos â bandiau du solet
- e. nodir y mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy ddefnyddio rhifau a llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlenni a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adnewwyd. Os oes mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau

- darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, gosodir ei rhif a'i llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd newydd sydd i'w darparu â llinellau lletraws ar y plan a adneuwyd;
- f. dangosir y darnau o briffordd sydd i'w darparu dros dro â llinellau ceibr tenau a dangosir llinell ganol y priffyrdd dros dro â llinell ddu ddi-dor denau ar y plan a adneuwyd ac fe'u dangosir drwy ddefnyddio rhifau a llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlenni; ac
  - g. disgrifir darnau o briffordd sydd i'w cau dros dro (bras amcan yn unig yw pob pellter), a'u dangos â llinellau ceibr trwm ar y plan a adneuwyd.

(2) Mae'r plan a adneuwyd yn marcio safle'r gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adneuwyd.

(3) Os yw'r darn o briffordd sydd i'w gau yn cyd-fynd â llwybr gwaith awdurdodedig sy'n briffordd newydd neu'n fynedfa newydd ni ddangosir y darn hwnnw ar y plan a adneuwyd â llinellau sebra.

### **Cau Priffyrdd a Mynedfeydd Preifat**

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni:-

(1) o ran pob darn o briffordd sydd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei chau, naill ai fod llwybr rhesymol gyfleus arall ar gael neu y bydd yn cael ei ddarparu cyn i'r darn hwnnw o briffordd gael ei gau; a

(2) o ran pob mynedfa breifat i fangre y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei chau, fod mynedfa resymol gyfleus arall i'r fangre ar gael neu y bydd yn

cael ei darparu cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau neu nad oes angen rhesymol am fynedfa i'r fangre berthnasol.

### **Trosglwyddo'r Priffyrdd Newydd (i awdurdod priffyrdd)**

4. Mae pob priffordd newydd i'w throsglwyddo i Gyngor Sir Powys fel y'i nodir yn yr Atodlenni a enwyd, o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor ei bod wedi'i chwblhau a'i bod ar agor i draffig trwodd.

5. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad iddi yn yr Atodlen berthnasol gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno, caiff y briffordd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

6. Pan fo darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Gorchymyn hwn:-

- a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Powys neu
- b. i alluogi Gweinidogion Cymru i newid priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir Powys,

yna trosglwyddir i Gyngor Sir Powys (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980) ar y dyddiad y trosglwyddir y briffordd a enwyd neu adeg cwblhau'r gwaith newid, neu ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, os bydd hynny'n ddiweddarach, unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (heblaw benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru neu a ysgwyddwyd ganddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, yn ôl fel y digwydd.

### **Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol**

7. Os, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol o dan y briffordd

honno, ynnddi, drosti, ar ei thraws, neu ar ei hyd, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf 1980, bydd gan yr ymgymerydd hynny yr un hawliau o hyd, o ran yr offer hwnnw, ar ôl i'r darn o briffordd gael ei gau, ag a oedd ganddynt yn union cyn hynny.

## Dehongli

8. Yn y Gorchymyn hwn:-

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl fel y digwydd;

(2)(i.) mae 'gwelliant' a 'gwella' (*'improvement'*) mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu newid y briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli 'i'w gwella' (*'improved'*) yn unol â hynny;

(ii.) ystyr 'priffordd newydd' (*'new highway'*) yw priffordd yr awdurdod ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn a rhaid dehongli 'priffordd newydd' yn unol â hynny

(iii.) ystyr 'prif ffordd' (*'principal road'*) fel dosbarth ar gyfer priffordd newydd yw bod y briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffordd a ddosberthir yn brif ffyrdd a'i bod hefyd yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn arall sy'n cyfeirio at briffordd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru;

(iv.) ystyr 'y plan a adneuwyd' (*'the deposited plan'*) yw'r plan sy'n cynnwys y planiau safle sy'n dwyn y rhifau 1 i 4 a gynhwysir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WG11 ac sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffyrdd Ymyl Ffordd Osgoi'r Drenewydd 2015', a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd (cyf qA1180058) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(v.) ystyr ‘y plan safle’ (*‘the site plan’*) yw un o’r planiau safle sy’n dwyn y rhifau 1 i 4 a gynhwysir yn y ffolio planiau sy’n dwyn y rhif HA14/1 WG11 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adneuwyd” ym mharagraff (vi.) uchod yn yr Erthygl hon;

(vi.) ystyr ‘y gefnffordd (A483)’ (*‘the trunk road (A483)’*) yw Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (A483) ac ystyr ‘y gefnffordd (A489)’ (*‘the trunk road (A489)’*) yw Cefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (A489);

(vii.) ystyr ‘y gefnffordd newydd’ (*‘the new trunk road’*) yw’r gefnffordd sydd i’w hadeiladu yn unol â ‘Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffordd Osgoi’r Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015’;

(viii.) ystyr ‘ffordd ddosbarthiadol’ (*‘classified road’*) fel dosbarth ar gyfer priffordd newydd yw nad yw’r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir yn brif ffyrdd ond ei bod yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru ac nad yw’n cyfeirio’n benodol at eu dosbarthu yn brif ffyrdd;

(ix.) ystyr ‘ffordd ddiddosbarth’ (*‘unclassified road’*) yw priffordd nad yw’n briff ffordd neu ffordd ddosbarthiadol neu lwybr troed neu lwybr beicio neu lwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig ac nad oes dosbarth ffurfiol iddi;

## **Enwi a Chychwyn**

9. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2015 a’i enw fydd ‘Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffyrdd Ymyl Ffordd Osgoi’r Drenewydd) 2015’.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 8 Rhagfyr 2015

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1980 p.66
- (2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERTAW E I  
FANCEINION (A483) A CHEFNFFORDD Y  
DRENEWYDD I ABERYSTWYTH (A489)  
(FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD A THYNNU  
STATWS CEFNFFORDD) 2015**

**A**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERTAW E I  
FANCEINION (A483) A CHEFNFFORDD Y  
DRENEWYDD I ABERYSTWYTH (A489)  
(FFYRDD YMYL FFORDD OSGOI'R  
DRENEWYDD) 2015**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu y caiff:-

a. ffordd sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A483 tua 70 metr i'r gogledd-orllewin o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Black Hall â Chefnffordd yr A483 gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 4.03 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A483 tua 756 metr i'r dwyrain o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn â Chefnffordd yr A483; a

b. ffordd sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd bresennol yr A489 tua 345 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd bresennol â'r ffordd fynediad ddiennw sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Glanrhyd a Glanhafren Hall gan ymestyn tua'r dwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 2.50 cilometr hyd at bwynt tua 208 metr i'r gogledd-orllewin o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Black Hall â Chefnffordd yr A483,

eu hadeiladu yn y Drenewydd yn Sir Powys ac y deuant yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym; ac y bydd:-

c. Cefnffordd bresennol yr A483 sy'n cychwyn wrth bwynt tua 122 fetr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 3.41 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 440 metr i'r dwyrain o gysylltiad llinell ganol mynedfa bresennol Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn â Chefnffordd yr A483;

d. Cefnffordd bresennol yr A483 sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 7 metr i'r gorllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol gan ymestyn tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol am bellter o ryw 0.06 cilometr hyd at bwynt ar Gefnffordd yr A483 tua 53 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Dolfor Ganol; ac

e. Cefnffordd bresennol yr A489 sy'n cychwyn wrth bwynt ar Gefnffordd yr A489 tua 102 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd bresennol â'r ffordd fynediad ddiennw sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Glanrhyd a Glanhafren Hall gan ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o ryw 2.42 cilometr hyd at bwynt ar y gyffordd bresennol a ffurfir lle mae Cefnffordd yr A489 yn cysylltu â Chefnffordd yr A483,

yn peidio â bod yn gefnffyrdd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Powys (a ddaw'n awdurdod priffyrdd ar gyfer y darnau hynny).

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn eu hawdurdodi:-

- h. i wneud gwaith i wella priffyrdd;
- i. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- j. i adeiladu priffyrdd newydd;
- k. i gau darnau o briffordd dros dro;
- l. i adeiladu darnau o briffordd dros



- dro;
- m. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd; a
  - n. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd,

oll ar lwybr y cefnffyrdd newydd a grybwyllwyd uchod, neu yn eu cyffiniau; ac

yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Sir Powys o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor eu bod wedi'u cwblhau a'u bod ar agor i draffig trwodd.

GELLIR Archwilio copïau o'r Gorchymynion, a'r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 18 Rhagfyr 2015 tan 29 Ionawr 2016, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys, SY16 1JB;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd Maldwyn, Severn Road, Y Trallwng, Powys, SY21 7AS; a
- Llyfrgell y Drenewydd, Park Lane, Y Drenewydd, Powys, SY16 1EJ.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (Yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (Yr A489) (Ffordd Osgoi'r Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015', OS 2015 Rhif 2016 (Cy. 305), wedi ei gyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth [www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk) neu TSO @ Blackwell; [www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/](http://www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/) ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (Ffyrdd Ymyl Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Llinell neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

am gwestiynu eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y seiliau canlynol, sef:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
- b. na chydymffurfiwyd â rhyw ofyniad yn y Ddeddf neu'r rheoliadau y gwnaethpwyd y gorchmynion hyn yn unol â hwynt,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r diben hwnnw i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddynt ddod yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn <http://cymru.gov.uk/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd', '2015').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn <http://cymru.gov.uk/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2015').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru